

# Archwiliad CDLI Newydd Caerdydd

## Y Gymraeg

### Pwynt Gweithredu HS5.2

*Y Cyngor i baratoi a chyflwyno Canllaw Cynllunio Atodol drafft ar y Gymraeg.*

### Ymateb y Cyngor

Mewn ymateb i'r Pwynt Gweithredu, mae'r Cyngor wedi paratoi'r Canllaw Atodol ar y Gymraeg drafft canlynol:

## CCA y Gymraeg a Datblygu drafft

### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Pwrpas y canllaw hwn yw cefnogi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) 2021–2036 Caerdydd drwy esbonio sut y bwriedir i Bolisi Strategol SP15 (SICRHAU A GWELLA CYFLEOEDD I DYFU'R GYMRAEG) a Pholisi Manwl WL1 (Y Gymraeg) gael eu cymhwyso yn ymarferol.
- 1.2 Mae polisïau SP15 a WL1 ill dau yn ceisio diogelu, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yng Nghaerdydd, gan helpu i gyflawni Caerdydd Ddwieithog.
- 1.3 Mae'r Gymraeg yn chwarae rhan bwysig ym mywydau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y trigolion ac ymwelwyr â Chaerdydd. Gall cynigion datblygu mawr sylweddol o bosibl gael effeithiau a chanlyniadau buddiol ac andwyol ar y Gymraeg a chymunedau.
- 1.4 Mae'r canllaw yn ceisio sicrhau bod ystyriaethau ynghylch y Gymraeg yn cael eu hintegreiddio i'r gwaith o baratoi cynigion datblygu o'r camau dylunio, creu lleoedd a chynllunio cynharaf. Bwriedir i'r ymagwedd fod yn gymesur â graddfa'r datblygiad a chanolbwyntio ar faterion y gellir dylanwadu'n rhesymol arnynt drwy'r system gynllunio.

### 2. Cynllunio a'r Gymraeg

Y Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi

Statws Cynllunio

- Adran 31 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cyd-destun Polisi Cenedlaethol a Rhanbarthol

- Polisi Cynllunio Cymru
- Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 20

- Cymraeg 2050

#### Y Cyd-destun Lleol

- Strategaeth Caerdydd Ddwylleithog 2022-27 Cyngor Caerdydd

### **3 Y Gymraeg yng Nghaerdydd**

- 3.1 Caerdydd yw'r awdurdod lleol mwyaf dwys ei boblogaeth yng Nghymru ac mae wedi profi'r ail gynnydd mwyaf yn y boblogaeth rhwng Cyfrifiadau 2011 a 2021. Er bod cyfran Caerdydd o drigolion rhwng 65 a 74 oed wedi gweld cynnydd, gwerth nodi fod gan Gaerdydd boblogaeth ifanc o hyd gyda Chaerdydd â chrynodiad uwch o drigolion rhwng 18 a 35 oed na gweddill Cymru, wedi'i yrru'n bennaf gan ei phrifysgolion a'i chyfleoedd cyflogaeth trefol.
- 3.2 Mae'r ddinas wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg, gyda niferoedd bron yn treblu yn y 40 mlynedd rhwng cyfrifiadau 1981 a 2021 o tua 15,000 i 42,757.
- 3.3 Roedd Caerdydd yn un o bedair ardal yn unig yng Nghymru a welodd gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021.
- 3.4 Er bod twf yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn nodwedd gadarnhaol, mae'r twf hefyd wedi arafu o'i gymharu â'r twf a welwyd ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf gyda chynnydd o 6,000 yn unig yn y 10 mlynedd rhwng 2011-2021. Er mwyn gwireddu'r twf angenrheidiol yn unol â llwybr 2050 rhwng 2021 a diwedd cyfnod y Cynllun, amcangyfrifir y bydd angen i dwf blyneddol cyfansawdd yng Nghaerdydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg godi i 1,400 erbyn 2036. Byddai'r gyfradd hon o dwf yn cyfateb i tua 17,000 o siaradwyr Cymraeg a bydd hynny bron i dair gwaith y twf a welwyd rhwng 2011 a 2021.
- 3.5 Yng Nghaerdydd, yn wahanol i weddill Cymru, mae dwysedd y siaradwyr Cymraeg yn uchel gydag 856 o siaradwyr fesul milltir sgwâr o'i gymharu ag e.e. Gwynedd yn 77 a Chymru yn 69. Felly, wrth gynllunio cyfleusterau a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, rhaid ystyried dwysedd y siaradwyr yn y ddinas a sut y gellir defnyddio'r 'ffactor agosrwydd' hwn i weithio'n gadarnhaol er budd yr iaith ar lefel y ddinas gyfan a'r lefel gymunedol.
- 3.6 Fel y Brifddinas, ystyrir y dylai Caerdydd arwain y ffordd i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i wireddu Strategaeth 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg Llywodraeth Cymru.

### **4. Fframwaith Polisi'r CDLI Newydd**

#### **Ardal o Bwysigrwydd Ieithyddol**

- 4.1 Mae Caerdydd wedi'i chlustnodi yn Ardal o Bwysigrwydd Ieithyddol i adlewyrchu ei rôl wrth gefnogi twf a defnydd parhaus y Gymraeg yng Nghaerdydd, ei rôl wrth

gefnogi uchelgais y Cyngor i greu dinas ddwyieithog ac i gyflawni amcanion Cymraeg 2050.

- 4.2 Mae polisiau SP15 a WL1 (nodir SP15 a WL1 yn llawn yn Atodiad 1) yn nodi'r fframwaith polisi i sicrhau bod datblygiad yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr amodau sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

## **5. Yr angen am Gynllun Gweithredu'r Gymraeg (CGG)**

- 5.1 Mae Polisi WL1 yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad mawr sylweddol gan gynnwys tai, cyflogaeth, manwerthu a datblygiadau masnachol gael eu cefnogi gan CGG.

- 5.2 At ddibenion Polisi WL1 diffinnir datblygiad mawr sylweddol fel:

- cynigion datblygu o 25 annedd neu fwy;
- datblygiad ar safle sy'n fwy na 0.99 hecтар, neu
- datblygiad yn creu mwy na 1999 metr sgwâr o arwynebedd llawr.

- 5.3 Dylai cwrmpas a manylion y CGG fod yn gymesur â maint a math y datblygiad arfaethedig.

- 5.4 Dylai Cynllun Gweithredu'r Gymraeg gynnwys:

- i) Datganiad o weledigaeth i gefnogi strategaeth Caerdydd Ddwyieithog i ddiogelu, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a datblygu prifddinas wirioneddol ddwyieithog i Gymru.
- ii) Disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig gan gynnwys proffil ieithyddol sy'n nodi sut bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar les y Gymraeg yng Nghaerdydd.
- iii) Ar gyfer cynigion datblygu mawr sylweddol ar safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu yn y cynllun (h.y. "safleoedd annisgwyl") dylid cynnwys datganiad i nodi ac asesu unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar y Gymraeg yng Nghaerdydd (Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg).
- iv) Rhestr o'r camau arfaethedig i liniaru unrhyw effaith andwyol bosibl yn sgil y datblygiad arfaethedig;
- v) Rhestr o'r camau arfaethedig i wella effaith fuddiol y datblygiad arfaethedig ar les y Gymraeg drwy ddiogelu statws a defnydd yr iaith, hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

## **6. Lliniaru a Gwelliannau i'r Gymraeg**

- 6.1 Pan fo angen i ddatblygiadau o dan bolisiau eraill y Cynllun ddarparu, gwella neu gyfrannu tuag at seilwaith cymunedol, bydd y buddion i'r Gymraeg sy'n deillio o'r ddarpariaeth honno yn cael eu hystyried wrth asesu cyfraniad y cynnig at amcanion Polisiau SP15 a WL1.

- 6.2 Mae'r rhestr ganlynol yn amlinellu enghreifftiau o fesurau gwella a lliniaru posibl y gellid eu cynnwys neu eu hannog mewn cynigion datblygu i ddiogelu, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr; gall rhai fod yn fwy priodol fel amodau neu gytundebau gwirfoddol.
- 6.3 Dylid nodi y gellir cymhwyso'r mesurau canlynol i unrhyw ddatblygiad ar safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLIN yn ogystal â safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu.

### **Enghreifftiau o Liniaru a Gwelliannau posibl:**

#### **Creu Lleuedd ac Amgylcheddau Dwyieithog**

- Mae'r iaith/diwylliant Cymraeg yn weladwy o fewn yr amgylchedd adeiledig.
- Dulliau canfod ffyrdd dwyieithog;
- Ardaloedd cyhoeddus dwyieithog sy'n adlewyrchu diwylliant a hunaniaeth leol;
- Cytuno ar strategaeth Gymraeg i'r cyfleusterau sydd ar gael i'r cyhoedd;
- Marchnata dwyieithog ac enwi Cymraeg ar y datblygiad;
- Darparu arwyddion dwyieithog o fewn a thu allan i'r datblygiad.

#### **Annog ymrwymiad i:**

- Ddosbarthu gwybodaeth am Gaerdydd Ddwyieithog, darpariaethau addysg cyn-ysgol a statudol cyfrwng Cymraeg; cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.
- Cefnogaeth a chyllid ar gyfer mentrau Cymraeg a diwylliannol, gan gynnwys prosiectau i hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau.
- Cefnogaeth a chyllid ar gyfer hyfforddiant iaith ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol a mentrau ar gyfer pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- Cefnogaeth a chyllid i oedolion ddysgu ac ymarfer defnyddio'r Gymraeg.
- Blaenoriaethu cwmnïau lleol wrth gaffael contractau llafur a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol;
- Datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu drwy gefnogi mynediad at hyfforddiant Cymraeg am ddim gan Dysgu Cymraeg, talu am hyfforddiant Cymraeg i rai staff, mabwysiadu arfer gorau wrth ddarparu cyfleoedd i staff ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle;
- Cael cefnogaeth Comisiynydd y Gymraeg i greu Cynllun Datblygu'r Gymraeg sy'n rhoi cynllun clir i elusen neu fusnes ei ddilyn, i gynnal a datblygu eu gwasanaethau Cymraeg dros amser. Mae Cynllun Datblygu'r Gymraeg hefyd yn dangos i gyrff cyllido'r sector cyhoeddus fod anghenion y Gymraeg yn cael eu bodloni.
- Cofrestru gyda *Cynnig Cymraeg* Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer elusennau a busnesau ac ennill achrediad.
- Defnyddio adnoddau iaith Gwaith i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg ac annog pobl i ddefnyddio'r iaith.

## 7 Cysylltiadau a Ffynonellau Gwybodaeth Bellach

- Tîm Caerdydd Ddwieithog  
[MaterionPolisilaithGymraeg@caerdydd.gov.uk](mailto:MaterionPolisilaithGymraeg@caerdydd.gov.uk)
- Mae [Dangosfwrdd y Ddinas](#) dwieithog Caerdydd yn cynnwys nifer o setiau data, wedi'u grwpio yn ôl gwahanol themâu, sy'n cyflwyno darlun o fywyd yng Nghaerdydd. Gellir gweld y data dros amser, ei gymharu ag ardaloedd eraill neu ei ddadansoddi ar lefel ward, lle bo hynny ar gael.
- Comisiynydd y Gymraeg: <https://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/>

### Atodiad 1: Polisiâu'r CDLI Newydd

### Atodiad 2: Data Proffil Iaith Gymraeg Cymunedol

Mae'n bwysig nodi nad oes gan yr un o'r 28 ward etholiadol yng Nghaerdydd lai na 1,000 o drigolion sydd â rhywfaint o sgiliau Cymraeg (h.y. sydd o leiaf yn deall Cymraeg llafar). Mewn dwy o'r wardiau gyda'r ganran isaf, sef Adamsdown a Trowbridge, mae gan y ddwy dros 2,000 o drigolion sydd â rhywfaint o sgiliau Cymraeg, sydd hefyd yn rhoi dwysedd ieithyddol sylweddol i'r cymunedau hyn.

Mae'r wardiau etholiadol gyda'r nifer fwyaf o drigolion sydd ag unrhyw sgiliau Cymraeg i'w gweld yn Nhreganna (4,659), yr Eglwys Newydd a Thongwynlais (3,645), Grangetown (3,268), Cathays (2,845), Plasnewydd (2,825), a Glan-yr-afon (2,816).

Y pum ward etholiadol uchaf o ran canran y siaradwyr Cymraeg yw Treganna (30%), Pentyrch a Sain Ffagan (26%), Llandaf (24%), Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais (24%) a Radur (22%). Mae gan saith ward arall ganrannau uwch o breswylwyr sydd â gallu siarad Cymraeg sy'n uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Tabl: Cyfran a nifer y preswylwyr sydd ag unrhyw sgiliau Cymraeg fesul Ward Etholiadol yn ôl Cyfrifiad 2021

|    | <b>Wardiau Etholiadol</b><br><i>*Ar ôl newidiadau 2022</i> | <b>% Siaradwyr</b><br><b>(*Unrhyw Sgiliau</b><br><b>Cymraeg)</b> | <b>Nifer*</b> |
|----|------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------|---------------|
| 1  | Adamsdown                                                  | 12.71%                                                           | 2,125         |
| 2  | Butetown                                                   | 14.4%                                                            | 1,659         |
| 3  | Caerau                                                     | 13.63%                                                           | 1,523         |
| 4  | Cathays                                                    | 13.65%                                                           | 2,845         |
| 5  | Cyncoed                                                    | 18.84%                                                           | 2,081         |
| 6  | Gabalfa                                                    | 17.19%                                                           | 1,581         |
| 7  | Grangetown                                                 | 16.41%                                                           | 3,268         |
| 8  | Glan-yr-afon                                               | 21.4%                                                            | 2,816         |
| 9  | Llandaf                                                    | 24.08%                                                           | 2,016         |
| 10 | Llanisien                                                  | 18.54%                                                           | 1,866         |

|    |                                    |        |       |
|----|------------------------------------|--------|-------|
| 11 | Llanrhymni                         | 12.38% | 1,372 |
| 12 | Llys-faen a'r Ddraenen             | 18.58% | 1,883 |
| 13 | Pentwyn                            | 13.09% | 2,051 |
| 14 | Pentyrch a Sain Ffagan             | 26.48% | 2,331 |
| 15 | Pen-y-lan                          | 20.02% | 2,482 |
| 16 | Plasnewydd                         | 15.92% | 2,825 |
| 17 | Pontpennau a Phentref<br>Llaneirwg | 15.74% | 1,739 |
| 18 | Radur                              | 22.42% | 1,545 |
| 19 | Rhiwbeina                          | 20.14% | 2,241 |
| 21 | Tredelerch                         | 12.86% | 1,085 |
| 22 | Treganna                           | 30.19% | 4,659 |
| 23 | Trowbridge                         | 12.91% | 2,123 |
| 24 | Trelái                             | 12.48% | 1,810 |
| 25 | Y Mynydd Bychan                    | 19.57% | 2,379 |
| 26 | Yr Eglwys Newydd a<br>Thongwynlais | 23.7%  | 3,645 |
| 27 | Y Sblot                            | 15.14% | 2,065 |
| 28 | Ystum Taf                          | 18.77% | 1,517 |
| 29 | Y Tyllgoed                         | 16.11% | 2,001 |